**EITEM AR YR AGENDA: 16**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**20 Mehefin 2011**

**CYNLLUN LWFANS AELODAU**

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

**Pwrpas yr Adroddiad:**

1 Pwrpas yr adroddiad yma yw:

- ystyried os dylid diwygio taliadau lwfans milltiroedd cymeradwy (AMAP) y Cynllun Lwfans i Aelodau ar ôl y newid diweddar i'r AMAP yng Nghyllideb 2011; a
- chymeradwyo rhai mân newidiadau i'r Cynllun cyfredol.

**Cefndir**

2 Yn ystod cwrs cyhoeddi cynnwys Cyllideb 2011, dywedodd Canghellor y Trysorlys y byddai'r AMAP ar gyfer y 10,000 milltir cyntaf o deithio busnes yn cynyddu o 40c i 45c y filltir, yn weithredol o 6 Ebrill 2011. Byddai'r AMAP ar gyfer unrhyw deithio busnes dros 10,000 yn aros ar 25c y filltir a swm o 5c y teithiwr yn aros yr un fath. Yr AMAP yw'r gyfradd y filltir sy'n rhydd o unrhyw atebolrwydd treth.

3 Mae'r Cynllun Lwfans Aelodau'n darparu ar gyfer cyfradd filltir o 40c y filltir, sy'n unol â phenderfyniad blaenorol y Panel Cydnabyddiaeth Arian Annibynnol i Gymru parthed yr AMAP blaenorol. Er nad oes gan y Panel Cydnabyddiad ddylanwad uniongyrchol ar Gynlluniau'r Awdurdod Tân, efallai byddai'r Aelodau'n dymuno gwybod fod y Panel wedi diwygio ei benderfyniad ynglŷn a'r gyfradd filltir er mwyn bod yr un fath â'r AMAP newydd, hynny yw, 45c y filltir. Fodd bynnag, oherwydd y ffordd mae Cynllun yr Awdurdod yn cael ei eirio, byddai rhaid gwneud penderfyniad penodol i'w ddiwygio os fyddai'r Awdurdod yn mabwysiadu'r AMAP newydd.

4 Pe byddai’r AMAP o 45c yn cael ei gymeradwyo, byddai’r cynnydd amcangyfrifedig mewn costau yn 2011/12 oddeutu £700 yn seiliedig ar gost milltiroedd 2010/11 sef £5650.

5 Mae’r mân newidiadau sydd eu hangen i’r Cynllun cyfredol wedi eu hamlygu mewn italig yn yr Atodiad sydd ynghlwm.

**ARGYMHELLION**

6 Fod Aelodau’n:

(a) pennu os yw’r gyfradd milltiroedd cymeradwy ar gyfer 2011/12 i aros ar 40c y filltir neu i’w gynyddu i 45c y filltir a’r dyddiad dylid ei gymhwyso (dim cyn 6 Ebrill 2011);
(b) cymeradwyo’r mân newidiadau i’r Cynllun cyfredol fel yr amlygir yn yr Atodiad sydd ynghlwm i’r adroddiad hwn.